


CYNGOR TREF RHUTHUN

RUTHIN TOWN COUNCIL

Neuadd y Dref
Ffordd Wynnstay
RHUTHUN
LL15 1AS
Ffôn: (01824) 703797
e-bost: clerc@cyngortrefrhuthun.gov.uk



Town Hall
Wynnstay Road
RUTHIN
LL15 1AS
Tel: (01824) 703797
e-mail: clerk@ruthintowncouncil.gov.uk

Clerc y Dref / Town Clerk: Sandra Williams

Eich Cyf/Your Ref:

Ein Cyf/Our Ref:

Dyddiad/Date:

15 Ionawr 2019

At Faer y Dref a Chynghorwyr
Cyngor Tref Rhuthun

Annwyl Aelod

Gofynnir i chi ddod i Gyfarfod Cyffredin **CYNGOR TREF RHUTHUN** i'w gynnal yn **Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun NOS LUN, 21 IONAWR 2019** am **7:00p.m.** Nodir y busnes i'w drafod yn y cyfarfod yn yr agenda isod.

Yn gywir

Sandra Williams

Sandra Williams, **Clerc y Dref**

AGENDA

- 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**
- 2. DATGAN BUDDIANNAU**
Datgan unrhyw fudd personol neu ariannol yn yr eitemau busnes a restrir isod.
- 3. ADRODDIAD Y MAER**
- 4. ADRODDIADAU'R AELODAU**
- 5. ADRODDIADAU CYNGHORWYR SIR RHUTHUN**
- 6. COFNODION Y CYFARFOD CYFFREDIN BLAENOROL**
Derbyn a chadarnhau bod cofnodion Cyfarfod Cyffredin y Cyngor a gynhaliwyd ar 17 Rhagfyr 2018 yn gywir.
- 7. MATERION YN CODI**
- 8. COFNODION Y PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU**
Derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Ionawr 2019.
- 9. COFNODION Y PWYLLGOR AMWYNDERAU**
Derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Ionawr 2019.
- 10. COFNODION YR IS-BWYLLGOR STAFFIO**
Derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Ionawr 2019 a chymeradwyo'r argymhellion gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / Correspondence welcomed in Welsh and English

11. DIWEDDARIAD AM YR HEN LYS

Derbyn diweddariad ynghylch yr Hen Lys, yn dilyn cyfarfod Gweithgor yr Hen Lys.

12. DIWEDDARIAD AM STRATEGAETH GYFATHREBU CYNGOR TREF RHUTHUN

Derbyn diweddariad yn dilyn cyfarfod y Gweithgor Strategaeth Gyfathrebu.

13. CYNRYCHIOLAETH AR GYRFF ALLANOL

Ystyried cynrychiolydd Cyngor Tref Rhuthun ar Bwyllgor Rheoli Canolfan Awelon, yn sgîl ymrwymïadau gwaith y Cynghorydd Jim Bryan.

14. DIWEDDARIAD CYNGOR CYMUNED A THREF

Ystyried y Diweddariad Cyngor Cymuned a Thref Rhagfyr 2018 a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

15. YSWIRIANT ZURICH

Ystyried cost adnewyddu yswiriant gan Zurich Municipal ar gyfer 2019-20 o £4,643.70 (yn cynnwys Treth Premiwm Yswiriant o £497.54) ynghyd â £496.72 (yn cynnwys Treth Premiwm Yswiriant o £53.22) ar gyfer yswiriant yr Hen Lys.

16. AMCANGYFRIFON ARIANNOL 2019-20

Derbyn amcangyfrifon drafft ar gyfer y flwyddyn ariannol yn diweddu 31 Mawrth 2020 gan Glerc y Dref.

17. DATGANIAD ARIANNOL

Derbyn a chymeradwyo datganiad ariannol y Swyddog Ariannol Cyfrifol am y cyfnod yn diweddu 31 Rhagfyr 2018.

18. CYFRIFON I'W TALU

Cymeradwyo talu'r eitemau a ganlyn:

D.U.	BT Business	Gwasanaethau ffôn a band eang	*	£196.43
100093	SLCC	Adnewyddu aelodaeth ar gyfer 2019		£175.00
100094	Zurich Municipal	Yswiriant ar gyfer yr Hen Lys, 11.12.18 – 31.01.19		£72.13
100095	Cyngor Sir Ddinbych	Taliad balans prynu'r Hen Lys		£108,000.00
100096	Clwb Rotari Rhuthun	Cymorth ariannol i'r digwyddiad Rasmus Mulod		£300.00
100097	Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru	2 ginio yn dilyn cyfarfod chwarterol Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru, 18.01.19		£32.00
100098	Canda Copying Ltd	Rhentu llungopiwr ac chopïau isafswm	*	£41.90
100099	Canda Copying Ltd	Copïau du a gwyn ychwanegol	*	£25.02
100100	Canda Copying Ltd	Copïau lliw ychwanegol	*	£21.84
100101	Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi	Treth Incwm ac Yswiriant Gwladol		£295.55
100102	Marian Rees	Gwasanaeth cyfieithu ar y pryd	*	£180.00
100103	Cyng. Gavin Harris	Ffi cais caniatâd cynllunio		£190.00

(Mae'r eitemau wedi'u dynodi gyda * uchod yn cynnwys TAW adferadwy o £42.94)

19. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Cadarnhau mai dyddiad y cyfarfod nesaf fydd nos Lun, 25 Chwefror 2019 am 7.00pm.